**Rhif: WG44408**

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Coridorau teithio rhwng Caerdydd a Chasnewydd

Dyddiad cyhoeddi: 01 Chwefror 2022
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 11 Mawrth 2022

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Ar y cyd â Chyngor Caerdydd a Chyngor Casnewydd, mae Trafnidiaeth Cymru yn ceisio barn ar opsiynau i wella teithio llesol a llwybrau bysiau ar hyd yr NCN88 a'r A48, gan ganolbwyntio ar ddewisiadau trafnidiaeth cynhwysol a chynaliadwy. |
| **Sut i ymateb** | Mae angen eich barn arnom i helpu i lunio'r cynlluniau hyn ac i wneud yn siŵr bod y cynllun yn diwallu anghenion defnyddwyr.<br><br>Gofynnwn i chi adolygu'r wybodaeth sydd ar gael ar gyfer pob un o elfennau posibl y cynllun a rhoi eich adborth cyn 11 Mawrth.<br><br>Gallwch ymateb drwy lenwi'r arolwg ar-lein sydd ar gael drwy'r dudalen hon, llwytho'r ffurflen i lawr a'i hanfon mewn e-bost at ymgysylltu@trc.cymru neu bostio i:<br><br>Y Tîm Ymgysylltu â Rhanddeiliaid,<br>Trafnidiaeth Cymru,<br>3 Llys Cadwyn,<br>Pontypridd, CF37 4TH |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.** |
| **Manylion cyswllt** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Y Tîm Ymgysylltu â Rhanddeiliaid,<br>Trafnidiaeth Cymru,<br>3 Llys Cadwyn,<br>Pontypridd, CF37 4TH<br><br>e-bost: ymgysylltu@trc.cymru |
| **Mae ar gael yn Saesneg hefyd yn:** | https://gov.wales/cardiff-newport-travel-corridors |

## Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

| | |
|---|---|
| Y Swyddog Diogelu Data:<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>CAERDYDD,<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru | Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:<br>Wycliffe House<br>Water Lane<br>Wilmslow<br>Cheshire<br>SK9 5AF<br>Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113<br>Gwefan: https://ico.org.uk/ |

## Rhagair

Mae gan Lywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru uchelgais i greu system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon sy'n cyfrannu at lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Mae hynny'n golygu system drafnidiaeth sy'n dda i'r amgylchedd, un sy'n cyfrannu at iechyd cyhoeddus a chydraddoldeb, sy'n cefnogi cymunedau i ffynnu ac sy'n helpu i gyflawni uchelgeisiau economaidd Cymru ar yr un pryd ag agor cyfleoedd newydd i gyrraedd y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol.

Er mwyn annog pobl i newid eu hymddygiad teithio i ddefnyddio trafnidiaeth gynaliadwy, rydym yn deall bod angen i ni wneud trafnidiaeth gynaliadwy yn fwy deniadol ac yn haws ei defnyddio. Mae'n rhaid i ni wneud y penderfyniadau iawn, y penderfyniadau hawdd.

Mae Uned Cyflenwi Burns wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru (TrC) i weithredu argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru. Ar y cyd â Chyngor Dinas Casnewydd, mae'n bwrw ymlaen ag argymhelliad i ddarparu seilwaith cerdded, beicio a bysiau newydd ar goridorau'r A48 a Llwybr Beicio Cenedlaethol 88 (NCN88) rhwng Caerdydd a Chasnewydd.

### Beth yw'r prif ystyriaethau?

Mae teithio rhwng Caerdydd a Chasnewydd yn goridor trafnidiaeth allweddol yn Ne-ddwyrain Cymru, ond mae'r opsiynau ar gyfer teithio cynaliadwy yn gyfyngedig. Ar hyn o bryd, mae'r cyfleusterau ar gyfer bysiau a cherddwyr ar hyd yr A48 yn wael ac nid oes darpariaeth o gwbl ar gyfer beicwyr, er ei bod yn cysylltu â chanolfannau cyflogaeth pwysig. Mae'r NCN88 yn llawer tawelach, ond mae rhannau ohono'n ddibalmant, yn ddryslyd neu'r terfyn cyflymder cenedlaethol yn unig sydd mewn grym.

### Sut gallem wella'r sefyllfa?

Gyda'r seilwaith cywir, mae cyfle i deithio ar fws neu ar gefn beic yn hytrach na char rhwng gogledd-ddwyrain Caerdydd a gorllewin Casnewydd. Byddai hyn yn gwella mynediad i safleoedd cyflogaeth pwysig a hefyd yn cyfrannu at system drafnidiaeth fwy cynaliadwy.

### Pa gynigion sy'n cael eu nodi yn yr ymgynghoriad hwn?

Ar gyfer pob coridor, mae tri opsiwn wedi cael eu datblygu.

Mae prif nodweddion yr opsiynau ar gyfer yr A48 yn cynnwys:

- Llwybr beiciau dwyffordd rhwng Caerdydd a Chasnewydd
- Newidiadau i gyffyrdd er mwyn rhoi blaenoriaeth i fysiau, cerddwyr a beicwyr
- Llai o lonydd traffig a newidiadau i derfynau cyflymder drwy Gas-bach

Mae prif nodweddion yr opsiynau ar gyfer yr NCN88 yn cynnwys:

- Darnau newydd o seilwaith beicio a cherdded sy'n fwy syth
- Mwy o fesurau gwahanu i ffwrdd o draffig ar gyfer cerddwyr, beicwyr a marchogion

- Gwelliannau i ddiogelwch ar y ffordd ym Maerun
- Triniaethau Lôn Dawel a newidiadau i derfynau cyflymder yn y darnau traffig cymysg sy'n weddill
- Mesurau lliniaru amgylcheddol i warchod a gwella cynefinoedd bywyd gwyllt ar Wastadeddau Gwent lle mae'r coridor yn mynd drwyddo

Er mwyn i chi allu rhoi eich barn ar yr opsiynau hyn, paratowyd pecyn ymgynghori i ddangos pob cynnig yn fanylach: https://llyw.cymru/coridorau-teithio-caerdydd-i-gasnewydd

# Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yn berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:


Ydych chi’n llenwi’r arolwg fel aelod o’r cyhoedd neu ar ran sefydliad?

☐ Aelod o'r cyhoedder

☐ Ar ran sefydliad

**A48 Opsiwn 1**

Mae Opsiwn 1 yn cyflwyno seilwaith newydd penodol at ddibenion cerdded a beicio (teithio llesol) a bysiau ar yr A48 rhwng Caerdydd a Chasnewydd, lle mae’n ymarferol gwneud hynny, gan gadw capasiti presennol y ffordd ar gyfer traffig cyffredinol gymaint â phosibl.




**C1: I ba raddau ydych chi’n cefnogi’r mesurau yn Opsiwn 1?**

☐ Cefnogi’n gryf

☐ Cefnogi


☐ Ddim yn cefnogi nac yn gwrthwynebu

☐ Gwrthwynebu
☐ Gwrthwynebu'n gryf

Rhowch eich rhesymau dros yr ateb a ddewiswyd isod (dewisol)

| |
|---|
| |

**A48 Opsiwn 2**
Mae Opsiwn 2 yn blaenoriaethu seilwaith newydd penodol at ddibenion cerdded a beicio (teithio llesol) a bysiau ar hyd coridor yr A48. O'i gymharu ag Opsiwn 1, mae mwy o ofod presennol y ffordd yn cael ei aildrefnu at ddibenion cerdded a beicio (teithio llesol) a bysiau. Mae'r opsiwn hwn hefyd yn cynnwys newidiadau mwy sylweddol i'r cyffyrdd presennol.




**C2: I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r mesurau yn Opsiwn 2?**

☐ Cefnogi'n gryf

☐ Cefnogi

☐ Ddim yn cefnogi nac yn gwrthwynebu


☐ Gwrthwynebu

☐ Gwrthwynebu'n gryf

Rhowch eich rhesymau dros yr ateb a ddewiswyd isod (dewisol):

### A48 Opsiwn 3

Mae Opsiwn 3 yn cynnwys addasiadau helaeth i goridor yr A48 ar gysylltiadau ac ar gyffyrdd, gan gynnwys newid rhai o'r cyffyrdd presennol yn llwyr er mwyn sicrhau y rhoddir y flaenoriaeth uchaf i fysiau, ac i gerdded a beicio (teithio llesol).




**C3: I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r mesurau yn Opsiwn 3?**

☐ Cefnogi'n gryf

☐ Cefnogi

☐ Ddim yn cefnogi nac yn gwrthwynebu

☐ Gwrthwynebu


☐ Gwrthwynebu'n gryf

Rhowch eich rhesymau dros yr ateb a ddewiswyd isod (dewisol):

**C4: Rhowch unrhyw sylwadau / adborth perthnasol ychwanegol sydd gennych ar unrhyw un o'r cynigion yn Opsiynau 1, 2 neu 3. Gallai hyn ymwneud â'ch profiad presennol o ddefnyddio'r A48 rhwng Caerdydd a Chasnewydd, neu am y math o welliannau yr hoffech eu gweld yn cael eu gwneud ar ei hyd (dewisol):**

**NCN88 Opsiwn 1**

Mae Opsiwn 1 yn golygu uwchraddio coridor presennol y NCN88 rhwng Caerdydd a Chasnewydd, cyn belled ag y bo’n ymarferol gwneud hynny o ystyried y cyfyngiadau ffisegol ac amgylcheddol.




**C5: I ba raddau ydych chi’n cefnogi’r mesurau yn Opsiwn 1?**

☐ Cefnogi’n gryf

☐ Cefnogi

☐ Ddim yn cefnogi nac yn gwrthwynebu

☐ Gwrthwynebu


☐ Gwrthwynebu’n gryf

Rhowch eich rhesymau dros yr ateb a ddewiswyd isod (dewisol):

|   |
|---|
|   |

**NCN88 Opsiwn 2**

Mae Opsiwn 2 yn cynnig uwchraddiad o ansawdd uchel i goridor y NCN88, gyda hydreiddedd wedi'i hidlo i gyfyngu ar fynediad i gerbydau yn ogystal â darnau o alinio newydd er mwyn osgoi llwybrau dryslyd drwy stadau tai.




**C6: I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r mesurau yn Opsiwn 2?**

☐ Cefnogi'n gryf

☐ Cefnogi

☐ Ddim yn cefnogi nac yn gwrthwynebu

☐ Gwrthwynebu


☐ Gwrthwynebu'n gryf

Rhowch eich rhesymau dros yr ateb a ddewiswyd isod (dewisol):

| |
|---|
| |

**NCN88 Opsiwn 3**

Mae Opsiwn 3 yn gwahanu beicwyr, cerddwyr a thraffig yn llwyr ar hyd coridor NCN88 i gyd, gyda darnau o aliniad newydd.




**C7: I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r mesurau yn Opsiwn 3?**

☐ Cefnogi'n gryf

☐ Cefnogi

☐ Ddim yn cefnogi nac yn gwrthwynebu

☐ Gwrthwynebu

☐ Gwrthwynebu'n gryf

Rhowch eich rhesymau dros yr ateb a ddewiswyd isod (dewisol):

| |
|---|
| |

**C8: Rhowch unrhyw sylwadau / adborth perthnasol ychwanegol sydd gennych ar unrhyw un o'r cynigion yn Opsiynau 1, 2 neu 3. Gallai hyn ymwneud â'ch profiad presennol o ddefnyddio'r NCN88 rhwng Caerdydd a Chasnewydd, neu am y math o welliannau yr hoffech eu gweld yn cael eu gwneud ar hyd y coridor (dewisol):**

| |
|---|
| |

**C9: Pa mor aml ydych chi'n teithio rhwng Caerdydd a Chasnewydd?**

☐ Bob dydd

☐ 3-4 gwaith yr wythnos

☐ 1-2 gwaith yr wythnos

☐ 1-3 gwaith y mis

☐ Llai nag unwaith y mis

☐ Byth

**C10: Pa un yw'r prif ddull rydych chi'n ei ddefnyddio fel arfer i deithio rhwng Caerdydd a Chasnewydd?**

☐ Trên

☐ Bws

☐ Tacsi

☐ Beic modur, sgwter neu foped

☐ Car - gyrrwr

☐ Car - teithiwr

☐ Beic

☐ e-feic

☐ Ar droed

**C11: Os ydych chi’n defnyddio mwy nag un dull (neu gyfuniad o ddulliau) i deithio rhwng Caerdydd a Chasnewydd, ticiwch nhw yma:**

☐ Trên

☐ Bws

☐ Tacsi

☐ Beic modur, sgwter neu foped

☐ Car - gyrrwr

☐ Car - teithiwr

☐ Beic

☐ e-feic

☐ Ar droed

**C12: Ble rydych chi’n byw? (cod post os oes modd, neu stryd/ardal)**

| |
|---|
| |

**C13: Oes car y gallech chi ei ddefnyddio?**

☐ Oes, mae gen i gar neu mae rhywun yn fy nghartref yn berchen ar gar

☐ Nac oes, does dim car y gallwn i ei ddefnyddio

**C14: I ba gategori oedran ydych chi’n perthyn?**

☐ Dan 18 oed

☐ 18-24

☐ 25-34

☐ 35-44

☐ 45-54

☐ 55-64

☐ 65 oed a hŷn

☐ Mae’n well gen i beidio â dweud

**C15: Pa un o'r canlynol sy’n disgrifio orau sut rydych chi’n gweld eich hun?**

☐ Benyw

☐ Gwryw

☐ Benyw Drawsryweddol

☐ Gwryw Trawsryweddol

☐ Anneuaidd

☐ Arall

☐ Mae’n well gen i beidio â dweudlf

Os Arall, noder yma (dewisol):

| |
|---|
| |

**C16: Beth yw eich grŵp ethnig?**

**Gwyn**

☐ Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon neu Brydeinig

☐ Gwyddelig

☐ Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig

☐ Unrhyw gefndir Gwyn arall

**Grwpiau Cymysg neu Aml-ethnig**

☐ Gwyn a Du Caribïaidd

☐ Gwyn a Du Affricanaidd

☐ Gwyn ac Asiaidd

☐ Unrhyw gefndir Cymysg neu Aml-ethnig arall

**Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig**

☐ Indiaidd

☐ Pacistanaidd

☐ Bangladeshaidd

☐ Tsieineaidd

☐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall

**Du, Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig**

☐ Affricanaidd

☐ Caribïaidd

☐ Unrhyw gefndir Du, Affricanaidd neu Garibïaidd arall

**Grŵp ethnig arall**

☐ Arabaidd

☐ Unrhyw grŵp ethnig arall

☐ Mae’n well gen i beidio â dweud

Os Arall, noder yma (dewisol):

**Q17: Fyddech chi’n disgrifio eich hun fel anabl? Mae anabledd yn cael ei ddiffinio fel cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor sy’n effeithio’n sylweddol ar eich bywyd, gan gynnwys nifer o faterion anweladwy, er enghraifft: awtistiaeth, colli clyw, colli golwg, neu ddyslecsia.**

☐ Byddwn

☐ Na fyddwn

☐ Mae’n well gen i beidio â dweud

**Cwestiwn A:**

**Cwestiwn A: Mae dyletswydd arnom i ystyried effeithiau ein polisïau ar yr iaith Gymraeg, o dan ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynnig yn ei gael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. Pa effeithiau allai fod, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?**

**Cwestiwn B:**

**Eglurwch hefyd sut ydych chi’n credu y gall y cynnig gael ei lunio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.**

**Cwestiwn C:**

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i sôn amdanynt:**

**Mae ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi. I gadw eich ymateb yn ddienw (gan gynnwys cyfeiriadau ebost) ticiwch y blwch.**

☐